**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

CS/NG

Dydd Iau, 30 Mehefin 2022

Maureen Potter 01352 702322
maureen.potter@flintshire.gov.uk

At: Cyng Richard Lloyd (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge,
Chris Bithell, Helen Brown, Paul Cunningham,
Adele Davies-Cooke, Gladys Healey,
Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones,
Hilary McGuill, Ted Palmer, Mike Peers,
Dan Rose, Linda Thew and Antony Wren

Annwyl Syr / Fadam

**RHYBUDD O GYFARFOD ANGHYSBELL**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**DYDD MERCHER, 6ED GORFFENNAF, 2022** am **1.00 PM**

Yn gywir

Steven Goodrum
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Sylwch: Bydd hwn yn gyfarfod dros y we. Gofynnwyd i siaradwyr cyhoeddus a hoffent gyfarch y Pwyllgor yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd y ffrydio byw yn dod i ben pan fydd unrhyw eitemau cyfrinachol yn cael eu hystyried. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

**R H A G L E N**

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGAN CYSYLLTIAD**

3 **SYLWADAU HWYR**

4 **COFNODION** (Tudalennau 5 - 8)

I gadarnhau, fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod ar 15 Mehefin 2022.

5 **EITEMAU I'W GOHIRIO**

6 **MAE ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI**

Mae adroddiad y Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd ac Economi) yn amgaeedig.

**ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI) AR GYFER Y PYLLGOR CYNLLUNIO 6 GORFFENNAF 2022**

| Rhif yr eitem | Cyfeirnod y Ffeil | DISGRIFIAD |
|---|---|---|
| **Ceisiadau sy'n cael eu hadrodd er penderfyniad (C = Cymeradwyaeth, G = Gwrthod)** | | |
| **6.1** | **064256** | 064256 – C – Cais Llawn ar gyfer addasu atig dormer gudag estyniad unllawr yn 26 Ffordd Muirfield, Bwcle (Tudalennau 9 - 16) |
| **6.2** | **061368** | 061368 - C - Newid defnydd tir i breswyl (Cymuned Sipsiwn-Teithwyr). Y safle i gynnwys un garafán sefydlog, un garafán deithiol, gwaith trin dŵr a pharcio ar gyfer dau gar gyda llawr caled cysylltiedig a seilwaith ar ochr tir Ashwood House, Church Lane, Aston Hill, Ewlo (Tudalennau 17 - 32) |
| **6.3** | **061388** | 061388 - C - Amlinellol - Dymchwel hen orsaf heddlu ac adeiladau cwrtil a chodi 10 fflat newydd a lle parcio cysylltiedig yng Ngorsaf yr Heddlu Bwcle, Ffordd Yr Wyddgrug, Bwcle. (Tudalennau 33 - 44) |
| **6.4** | **064316** | 064316 - C – Trosi eiddo preswyl presennol yn HMO 7 ystafell wely (Tudalennau 45 - 54) |

***Sylwch y gall fod 10 munud o egwyl yn y cyfarfod hwn os yw’n para fwy na dwy awr***

**Nodyn Gweithdrefnol ar redeg cyfarfodydd**

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfodydd ac yn cyflwyno eu hunain.

Bydd nifer o Gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd. Bydd swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau, gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu a chynnal y cyfarfodydd.

Gofynnir i bawb sy'n mynychu i sicrhau bod eu ffonau symudol wedi diffodd a bod unrhyw sain gefndirol yn cael ei gadw mor dawel â phosib.

Dylai'r holl feicroffonau gael eu rhoi "ar miwt" yn ystod y cyfarfod a dim ond pan fyddwch yn cael eich gwahodd i siarad gan y Cadeirydd y dylid eu rhoi ymlaen. Pan fydd gwahoddedigion wedi gorffen siarad dylen nhw roi eu hunain yn ôl "ar miwt".

Er mwyn mynegi eu bod nhw eisiau siarad bydd Cynghorwyr yn defnyddio'r cyfleuster 'chat' neu yn defnyddio'r swyddogaeth 'raise hand' sy'n dangos eicon codi llaw electronig. Mae'r swyddogaeth 'chat' hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio i ofyn cwestiynau, i wneud sylwadau perthnasol ac yn gyfle i'r swyddog gynghori neu ddiweddaru'r cynghorwyr.

Bydd y Cadeirydd yn galw ar y siaradwyr, gan gyfeirio at aelod etholedig fel 'Cynghorydd' a swyddogion yn ôl eu teitl swydd h.y. Prif Weithredwr neu enw. O bryd i'w gilydd mae'r swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn egluro pwyntiau gweithdrefnol neu'n awgrymu geiriad arall ar gyfer cynigion er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor.

Os, a phan y cynhelir pleidlais, mi fydd y Cadeirydd yn egluro mai dim ond y rheiny sy'n gwrthwynebu'r cynnig/cynigion, neu sy'n dymuno ymatal a fydd angen mynegi hynny drwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'chat'. Bydd y swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn mynegi os bydd y cynigion yn cael eu derbyn.

Os oes angen pleidlais fwy ffurfiol, bydd hynny yn ôl galwad enwau – lle gofynnir i bob Cynghorydd yn ei dro (yn nhrefn yr wyddor) sut mae ef / hi yn dymuno pleidleisio.

Yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio a Chyngor Sir mae amseroedd siaradwyr yn gyfyngedig. Bydd cloch yn cael ei chanu i roi gwybod i'r siaradwyr bod ganddyn nhw funud ar ôl.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home